

Cynllun Iaith Gymraeg
Welsh Language Scheme

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU

Cynnwys

	Cynnwys	2
1.	Cyflwyniad	3
2.	Datganiad	4
3.	Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau	5
4.	Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	6
5.	Delwedd Gorfforaethol	8
6.	Cyhoeddiadau	9
7.	Datganiadau i'r Wasg	9
8.	Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth	10
9.	Gweithredu'r Cynllun	12
10.	Gweithredu a Monitro	13
11.	Hysbysebu'r Cynllun a Chodi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd	13
12.	Atodiad 1 – Amserlen a Chynllun Gweithredu	14

1. Cyflwyniad

Esboniad o natur a strwythur eich sefydliad

Sefydlwyd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn 2003 i weithio 'yn arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg' (Memorandwm Cymdeithasiad). Sefydlwyd chwaer gwmni, National Theatre Wales, yn 2009 i weithio drwy gyfrwng y Saesneg.

Gwerthoedd eich sefydliad

Y Gymraeg fydd cyfrwng iaith cynyrchiadau THEATR GENEDLAETHOL CYMRU.

Ni fydd y cwmni'n llwyfannu cynyrchiadau sy'n cynnwys defnydd helaeth o iaith neu ieithoedd heblaw'r Gymraeg, heb ganiatâd gan Fwrdd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU. Mewn achosion o'r fath, gorau oll os bydd modd cydweithio â phartner arall (er enghraifft NTW).

Prif gynulleidfa THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yw pobl sy'n rhugl neu'n lled rugl yn y Gymraeg. Y brif flaenoriaeth, felly, yw denu rhagor o gynulleidfa o blith siaradwyr Cymraeg, a hynny ar draws pob ystod oedran ac o bob rhan o gymdeithas. Mae strategaeth farchnata'r cwmni yn adlewyrchu hynny.

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn manteisio ar gyfleoedd i estyn allan i ddysgwyr y Gymraeg ac i'r di-Gymraeg, ond yn cymryd pob gofal i beidio ag amharu ar brofiad a mwynhad y gynulleidfa Gymraeg. Bydd cynllun Sibrwd a chynlluniau tebyg yn rhan allweddol o strategaeth THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn y cyswllt hwn.

Eich prif amcanion/gwerthoedd a sut mae'r Gymraeg yn plethu iddynt

1.1 Amcan Sylfaenol

Cyflwyno amrywiaeth o gynyrchiadau theatr eang eu hapêl, sy'n cyfoethogi diwylliant theatraidd Cymru yn ei holl ffurfiau, yn arbennig trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.2 Datganiad o Fwriad

THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Mae'n creu rhaglen amrywiol o waith theatraidd eang ei hapêl, sy'n cynnwys cynyrchiadau teithiol prif ffrwd, prosiectau cymunedol, profiadau theatr safle benodol, a gweithgaredd theatraidd dychmygus ac uchelgeisiol ledled Cymru a thu hwnt. Mae'n cynnig cyfleoedd i'w gynulleidfa oedd chwerthin, dwys ystyried, darganfod o'r newydd, cwestiynu a dathlu. Yn ogystal â chyflwyno cynyrchiadau theatr yn eu ffurfiau traddodiadol, yn destunau newydd, addasiadau neu destunau clasurol, mae hefyd yn arbrofi gyda dulliau amgen o gyflwyno theatr. Gyda phartneriaid creadigol o Gymru a'r Deyrnas Gyfunol, ynghyd â phartneriaid

rhyngwladol, mae'n anelu'n gyson at ddatblygu cynulleidfaoedd newydd a datblygu cyfleoedd newydd i gyflwyno'i waith, gan ymdrechu i gryfhau rôl y theatr ym mywyd y genedl gyfan.

Mae THEATR GENEDLAETHOL CYMRU hefyd yn cynnig amrywiaeth o brosiectau cyfranogol, sy'n cyfoethogi profiad y cyhoedd, yn archwilio'r berthynas rhwng y gynulleidfa a'r gwaith creadigol ei hun, ac yn datblygu perthynas y cwmni gydag unigolion, sefydliadau a chymunedau o bob math ledled Cymru.

2. Datganiad

Mae THEATR GENEDLAETHOL CYMRU wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal gweithgareddau yng Nghymru, na fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y gall ar adegau gynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Mae swm sylweddol o gyllid THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn deillio o arian cyhoeddus. Mae ein chwaer gwmni, National Theatre Wales, yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg. Mae'n ddyletswydd arnom, felly, i ddarparu'n bennaf yn Gymraeg i'r cyhoedd yn unol â chanllawiau ein cyllidwyr. Mae THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn credu bod cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â dewis iaith yr unigolyn yn fater o arfer da. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn gwneud hynny wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy ei weithgareddau a'i wasanaethau ac yn ceisio annog siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â ni i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Ceisiwn ddatblygu gwasanaethau gyda'r unigolyn yn greiddiol iddynt, lle bydd yr unigolyn hwnnw yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ar bob adeg.

3. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

3.1 Polisiâu a mentrau newydd

Wrth gynllunio polisiâu neu fentrau newydd a diwygiedig, bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn asesu'r goblygiadau ieithyddol er mwyn cadw at amodau'r Cynllun hwn.

Trwy gyfrwng y llawlyfr staff, bydd staff sy'n llunio a gweithredu polisiâu a mentrau newydd yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ogystal â gofynion cytundebol a osodir ar y sefydliad trwy gytundebau â chyrrff eraill a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Bydd Tîm Rheoli a Bwrdd Ymddiriedolwyr THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn monitro gweithrediad y Cynllun.

3.2 Darparu gwasanaethau

Nod THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy ar gyfer siaradwyr Cymraeg drwy Gymru. Fel y nodir yn yr amserlen, byddwn yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r un safon uchel yn Gymraeg a Saesneg trwy:

- o sicrhau bod pob aelod o staff/gwirfoddolwr yn gallu trafod trwy gyfrwng y Gymraeg
- o sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod bod staff/gwirfoddolwyr yn siarad Cymraeg. Gall y cyhoedd weld hyn yn glir wrth i staff ddefnyddio bathodynau, cortyn gwddf a phosteri 'Iaith Gwaith'
- o darparu hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer staff/gwirfoddolwyr i hwyluso'r broses o weithredu'r Cynllun.
- o hyrwyddo gweithleoedd Cymraeg yn ein swyddfeydd. Mae adnoddau ar gael gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo wrth ddod o hyd i wasanaethau cyfieithu safonol a dibynadwy i sicrhau bod yr holl ddeunydd perthnasol yn cael ei gyfieithu'n gyflym ac mewn ffordd ddibynadwy. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell defnyddio cyfieithwyr proffesiynol.

4. Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Cyfathrebu ysgrifenedig

Cymraeg fydd iaith naturiol y cwmni wrth weinyddu a gohebu. Serch hynny, ni fydd rhai sy'n cysylltu â'r Cwmni drwy gyfrwng y Saesneg dan unrhyw anfantais.

Byddwn yn annog pob cwsmer i anfon gohebiaeth Gymraeg at THEATR GENEDLAETHOL CYMRU, a bydd y rhai hynny fydd yn ysgrifennu yn Gymraeg yn derbyn ateb Cymraeg ar bapur swyddogol wedi ei lofnodi.

- Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Saesneg ynddo'i hun yn arwain at oedi. Bydd llythyrau a dderbynnir yn Saesneg yn cael eu hateb yn Saesneg.
- Yn dilyn cysylltiad Saesneg wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, anfonir unrhyw ohebiaeth wedi hynny yn Saesneg neu'n ddwyieithog.
- Os bydd yn hysbys fod yn well gan gwsmer dderbyn gohebiaeth Saesneg, lle bo hynny'n ymarferol, byddwn yn gohebu â'r person hwnnw yn Saesneg.
- Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn cynnal cronfa ddata o gwsmeriaid y mae'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.
- Er mwyn hwyluso cyfathrebu â chwsmeriaid yn Gymraeg, bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn cadw rhestr o gyfieithwyr a fydd ar gael i aelodau'r staff
- Lle nad yw dewis unigol yn hysbys, er enghraifft wrth anfon llythyrau safonol, byddwn yn cyfathrebu'n ysgrifenedig â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Bydd papur pennawd a llofnod e-bost THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn cynnwys nodyn ar y gwaelod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

4.2 Cysylltiadau ffôn

Y Gymraeg fydd iaith naturiol y Cwmni wrth drafod ar y ffôn. Bydd croeso i gwsmeriaid gynnal sgwrs ffôn â ni yn Gymraeg neu Saesneg.

- Bydd pob galwad allanol yn cael ei hateb gyda chyfarchiad safonol, sef:
'Bore da, THEATR GENEDLAETHOL CYMRU,' neu 'Prynhawn da, THEATR GENEDLAETHOL CYMRU.'
- Bydd pob aelod o'r staff yn gallu delio â galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

4.3 Cysylltiadau wyneb yn wyneb

Y Gymraeg fydd iaith naturiol y Cwmni wrth ddelio â'r cyhoedd wyneb yn wyneb. Bydd croeso i bobl sy'n ymweld â swyddfeydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd drafod eu materion yn Saesneg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.4 Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Y Gymraeg fydd iaith naturiol cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus y Cwmni.

Pan fydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn trefnu cyfarfodydd mawr ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn sefydlu arferion safonol er mwyn darparu'n ddwyieithog.

Cymraeg fydd iaith hysbysiadau cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau neu gynadleddau, oni phenderfynir fod y rhain yn berthnasol i'r di-Gymraeg.

Caiff anghenion cyfieithu eu hasesu cyn cynnal unrhyw gyfarfod cyhoeddus neu gynhadledd, a darperir cyfleusterau cyfieithu priodol ar sail yr asesiad hwnnw. Os darperir cyfleusterau cyfieithu, rhoddir gwybod ymlaen llaw fod croeso i unrhyw un siarad Cymraeg neu Saesneg. Os ystyrir, ar sail yr asesiad, nad oes angen cyfleusterau cyfieithu, neu os nad ydynt yn ymarferol bosibl, esbonnir hynny'n glir ymlaen llaw. Gwneir yr asesiad ar sail pwrpas neu destun y cyfarfod, ei leoliad, y rhai sy'n debygol o'i fynychu, ac unrhyw wybodaeth ymlaen llaw ynghylch y dewis o iaith.

Bydd pob aelod o staff yn siarad Cymraeg. Anogir gwirfoddolwyr di-Gymraeg i ddysgu'r iaith, a gellir dangos eu gallu yn y Gymraeg trwy wisgo bathodynau 'Iaith Gwaith'.

5. Delwedd Gorfforaethol

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Y Gymraeg fydd iaith hunaniaeth gorfforaethol y Cwmni. Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU a'i phrif gontractwyr yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol Gymraeg yng Nghymru. Cymraeg fydd iaith y deunyddiau ysgrifenedig, logos a sloganau, ynghyd â phapur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau apwyntiad. Lle penderfynir fod angen cynnwys negeseuon i'r di-Gymraeg, gellir defnyddio deunydd dwyieithog.

Bydd pob hysbysiad cyffredinol a chyhoeddus a hysbyseb swydd a ddsberthir i'r cyfryngau yn Gymraeg. Gellir penderfynu defnyddio hysbysiadau dwyieithog lle bo hynny'n briodol.

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn manteisio ar gyfleoedd i estyn allan i ddysgwyr y Gymraeg ac i'r di-Gymraeg, ond yn cymryd pob gofal i beidio ag amharu ar brofiad a mwynhad y gynulleidfa Gymraeg. Bydd cynllun Sibrwd, a chynlluniau tebyg, yn rhan allweddol o strategaeth THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn y cyswllt hwn.

Darperir pob deunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog, yn ôl y galw.

5.2 Arwyddion

Mae THEATR GENEDLAETHOL CYMRU wedi ymrwmo i ddarparu arwyddion gwybodaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gynnwys o fewn ei swyddfeydd. Os yn ddwyieithog, bydd yr arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg.

6. Cyhoeddiadau

6.1 Dogfennau

Y Gymraeg fydd iaith naturiol unrhyw ddeunydd ar gyfer y cyhoedd. Wrth argraffu a chyhoeddi deunydd ar gyfer y cyhoedd, bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn dilyn y drefn arferol o wneud hynny yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn dibynnu ar natur y cynhyrchiad.

Bydd cyhoeddiadau dwyieithog yn cynnwys pamffledi, llyfrynau, cylchlythyron, cyhoeddiadau corfforaethol a deunydd cyhoeddiedig cyffredinol a ddsberthir i gwsmeriaid yng Nghymru gan THEATR GENEDLAETHOL CYMRU neu ar ei rhan.

Bydd cwsmeriaid yn gallu dewis derbyn gwybodaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg o ansawdd uchel ac yn y cywair priodol gan roi sylw i'r gynulleidfa darged.

Os na fydd yn bosibl neu'n addas cynhyrchu deunyddiau dwyieithog, cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bryd hynny, bydd y ddau fersiwn o'r un safon ac yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd, ac yn cynnwys neges bod fersiwn Cymraeg/Saesneg ar gael.

7. Datganiadau i'r wasg

7.1. Datganiadau i'r Wasg

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau Cymraeg i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru neu'n ddwyieithog, pan fo hynny'n briodol.

- Bydd datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg yn unig, neu'n ddwyieithog, yn ôl y galw.
- Ym mhob datganiad i'r wasg, rhoddir manylion cyswllt cynrychiolydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU sy'n siarad Cymraeg. Bydd awdurdod gan y person hwn i gynrychioli THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn llawn o fewn ffiniau ei gwybodaeth. Byddwn yn cadw rhestr o gysylltiadau addas.

8. Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth

Wrth gynllunio neu ailddatblygu gwefannau neu unrhyw wasanaeth technoleg gwybodaeth arall, byddwn yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg: ‘Technoleg, gwefannau a meddalwedd: ystyried y Gymraeg’.

8.1 Gwefan

Bydd gwefan THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnig dewis iaith yn rhagweithiol o ddechrau ymweliad y defnyddiwr. Bydd modd i’r defnyddiwr drosglwyddo o un iaith i’r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio’r botwm iaith amlwg a leolir yng nghornel dde uchaf pob tudalen.

Bydd y deunydd a gyhoeddir ar y wefan yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda thudalennau cyfatebol ar gyfer y ddwy iaith. Cyhoeddir tudalennau gwe Cymraeg a Saesneg ar yr un adeg pryd bynnag y bo hynny’n bosibl. Os na fydd y cynnwys Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd ar unrhyw adeg, yna bydd y cynnwys Cymraeg yn ymddangos gyda nodyn yn rhoi gwybod i’r defnyddwyr pryd y bydd y dudalen Saesneg ar gael.

Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ddogfennaeth THEATR GENEDLAETHOL CYMRU a lwythir ar y wefan ar gael yn ddwyieithog ar yr un pryd.

Pan geir dolen o wefan THEATR GENEDLAETHOL CYMRU i wefan arall sydd ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys dolenni at ein rhwydweithiau cymdeithasol, bydd dewis iaith y defnyddwyr yn eu dilyn wrth iddynt symud o un wefan i’r llall.

Wrth gyfeirio at y wefan mewn dogfennau cyhoeddus neu negeseuon e-bost, defnyddir www.theatr.cymru ar gyfer dogfennau Cymraeg a dogfennau Saesneg.

8.2 Fforymau Trafod a Rhwydweithiau Cymdeithasol

Mae THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn cydnabod pwysigrwydd darparu cydraddoldeb gwasanaeth i’r ddwy gymuned ieithyddol wrth ddarparu fforymau trafod a gwasanaethau ar rwydweithiau cymdeithasol.

Bydd holl negeseuon corfforaethol THEATR GENEDLAETHOL CYMRU ar rwydweithiau cymdeithasol THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn Gymraeg neu’n ddwyieithog, yn ôl y galw.

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn cefnogi dewis iaith defnyddwyr ac yn croesawu sylwadau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Pan fydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn ymateb i sylw unigolyn, bydd yn gwneud hynny yn yr un iaith â’r sylw. Pan fydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn ymateb i ffrwd trafodaeth sy’n berthnasol i’r cyhoedd, gwneir hynny yn Gymraeg neu’n ddwyieithog, yn ôl y galw.

Fe fydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn ymdrechu i godi pontydd rhwng cymunedau ieithyddol, ac yn penodi pencampwyr iaith i ddod â syniadau o'r naill gymuned ieithyddol i'r llall.

8.3 Technoleg Gwybodaeth a phersonél

Er mwyn cynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd meddalwedd TG, megis geiriadur a gwirydd sillafu Cysgliad, ar gael ar y cyfrifiaduron. Bydd fersiynau Cymraeg o Microsoft Windows ac Office hefyd ar gael i staff a gwirfoddolwyr.

Bydd pob llofnod e-bost yn ddwyieithog, a bydd llofnod e-bost y staff yn gwahodd eraill i ysgrifennu atynt yn Gymraeg neu yn Saesneg.

9. Gweithredu'r Cynllun

9.1 Staffio

Bydd y Gymraeg yn angenrheidiol i swyddi craidd y Cwmni, a darperir pecyn recriwtio Cymraeg ar gyfer y swyddi hyn.

9.2 Gwirfoddoli

Y Gymraeg fydd iaith naturiol y gwirfoddolwyr. Lle bo dysgwyr neu rai di-Gymraeg am wirfoddoli, darperir hyfforddiant priodol yn yr iaith fel bod gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu'n llawn yn eu priod feysydd.

9.3 Hyfforddiant

Bydd unrhyw hyfforddiant i staff y cwmni neu staff llawrydd yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y cwmni'n trefnu hyfforddiant trwy gyfrwng y Saesneg dim ond os nad oes modd ei drefnu trwy gyfrwng y Gymraeg.

9.4 Gwasanaethau gan Gontractwyr ar ran y Sefydliad

Drwy gyfrwng y trefniadau contractio, bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn sicrhau bod contractwyr yn gweithredu pob rhan berthnasol o'r Cynllun wrth ddelio â chwsmeriaid neu'r cyhoedd.

Gwneir darpariaeth i fonitro cydymffurfiad THEATR GENEDLAETHOL CYMRU a chontractwyr â rhannau perthnasol o'r Cynllun o fewn y trefniadau monitro safonol, yn cynnwys adroddiadau perfformiad rheolaidd gan gontractwyr ac asiantaethau ac aelodau'r panel iaith Gymraeg.

Efallai y gall y contractau neu drefniadau fod yn rhai byr ac ar gyfer tasg neu weithgaredd penodol lle nad yw'n ymarferol mynnu cydymffurfiad llawn â'r Cynllun. Yn yr achos hwnnw, ceisir cael y cydymffurfiad llawnaf posibl dan yr amgylchiadau. Enghreifftiau o hyn yw llogi fan, cynhyrchu arweinlyfrau ac ati.

10. Gweithredu a monitro

10.1 Monitro ac adolygu

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn mesur gweithrediad y Cynllun yn unol â'r cynllun gweithredu a'r amserlen sydd ynghlwm â'r Cynllun hwn.

Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Cyfarwyddwr Artistig, i'r Bwrdd Rheoli ac i Gomisiynydd y Gymraeg am adborth.

Cynhwysir adran ar gydymffurfio â'r Cynllun hwn yn yr adroddiad corfforaethol blynyddol.

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun bob tair blynedd mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg.

10.2 Cwynion ac adborth

Mae gweithdrefn gwyno bresennol THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn cwmpasu unrhyw gwynion a wneir ynghylch gweithredu'r Cynllun neu'r gwasanaeth Cymraeg.

Mae THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd, ei staff ac aelodau'r Bwrdd ar gyfer gwella ei Gynllun a'i wasanaeth Cymraeg. Dylid cyfeirio unrhyw awgrymiadau at y Cyfarwyddwr Artistig, a chânt eu hystyried yn ystod y cyfnod monitro.

11. Hysbysebu'r Cynllun a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn hysbysebu'n barhaus ei Chynllun iaith Gymraeg i'r cyhoedd, staff, aelodau'r Bwrdd ac asiantaethau. Byddwn yn sicrhau bod y bobl sy'n delio â THEATR GENEDLAETHOL CYMRU yn ymwybodol o'r Cynllun a'i gynnwys. Bydd copïau o'r Cynllun ar gael yn rhad ac am ddim yn ein swyddfeydd, ar ffurf dogfen ddwyieithog.

Defnyddir y dulliau cyhoeddusrwydd canlynol:

- Dosbarthu gwybodaeth a chanllawiau ymhlith y staff
- Sicrhau bod copïau o'r Cynllun ar gael i aelodau Bwrdd THEATR GENEDLAETHOL CYMRU a'r cyhoedd yn gyffredinol trwy ei osod ar ein gwefan a'i ddosbarthu ar gais
- Gweithdai a chyflwyniadau ar gyfer cleientiaid a rhanddeiliaid, yn ôl y galw

12. Atodiad 1 – Amserlen a Chynllun Gweithredu

MAES GWEITHGAREDD	GWEITHRED	GAN BWY	AMSERLEN
3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau			
3.1 Polisiâu a mentrau newydd	Cadw at amodau'r Cynllun hwn wrth gynllunio polisiâu neu fentrau newydd	Rheolwyr y Cwmni	Parhaus
3.2 Darparu gwasanaethau	Parhau i ddarparu gwasanaethau yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog lle bo angen	Holl Staff y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
4. Cyfathrebu â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg			
4.1 Cyfathrebu ysgrifenedig	Parhau i gyfathrebu'n ysgrifenedig yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'n ddwyieithog lle bo angen	Holl Staff y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
4.2 Cysylltiadau ffôn	Parhau i gyfathrebu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ar y ffôn, neu'n ddwyieithog lle bo angen	Holl Staff y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
4.3 Cysylltiadau wyneb yn wyneb	Parhau i gyfathrebu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg wyneb yn wyneb, neu'n ddwyieithog lle bo angen	Holl Staff y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
4.4 Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus	Parhau i gyfathrebu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau, neu'n ddwyieithog lle bo angen	Holl Staff y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
5. Delwedd gorfforaethol			
5.1 Hunaniaeth gorfforaethol	Defnyddio'r Gymraeg fel iaith hunaniaeth gorfforaethol y Cwmni.	Rheolwyr y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
5.2 Arwyddion	Arddangos arwyddion Cymraeg heblaw lle bo angen rhai dwyieithog	Adran Farchnata	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
6. Cyhoeddiadau			
6.1 Dogfennau	Darparu dogfennaeth Gymraeg i'r cyhoedd, neu'n ddwyieithog pan fo angen	Holl Staff y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer

MAES GWEITHGAREDD	GWEITHRED	GAN BWY	AMSERLEN
7. Datganiadau i'r Wasg			
7.1 Datganiadau i'r Wasg	Cyhoeddi datganiadau a hysbysiadau Cymraeg i'r wasg, neu'n ddwyieithog pan fo'n briodol	Adran Farchnata	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
8. Gwefannau a Thechnoleg Gwybodaeth			
8.1 Gwefan	Darparu gwefan ddwyieithog i'r cyhoedd – theatr.cymru	Adran Farchnata	Diwygiwyd ym mis Mawrth 2015
8.2 Fforymau Trafod a Rhwydweithiau Cymdeithasol	Cyhoeddi negeseuon a gwybodaeth gyffredinol yn y Gymraeg, neu'n ddwyieithog lle bo angen	Adran Farchnata	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
8.3 Technoleg Gwybodaeth a Phersonél	Darparu meddalwedd cyfrwng Cymraeg i staff a gwirfoddolwyr Sicrhau bod llofnod e-bost pob aelod o staff yn ddwyieithog	Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth Adran Farchnata	Awst 2015 Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
9. Gweithredu'r Cynllun			
9.1 Staffio	Darparu pecyn recriwtio cyfrwng Cymraeg	Rheolwyr y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
9.2 Gwirfoddoli	Darparu cyfleoedd gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg	Rheolwyr y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
9.3 Hyfforddiant	Darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff	Rheolwyr y Cwmni	Yn weithredol eisoes – parhau i gynnal yr arfer
9.4 Gwasanaethau gan gontractwyr ar ran y sefydliad	Sicrhau bod contractwyr allanol yn gweithredu'r cynllun hwn cyn amled ag y bo modd	Rheolwyr y Cwmni	Parhaus
10. Gweithredu a monitro			
10.1 Monitro ac adolygu	Y Tîm Rheoli a'r Bwrdd i fonitro ac adolygu'r Cynllun yn flynyddol Diwygio'r Cynllun bob 3 blynedd, mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg	Rheolwyr y Cwmni ac Aelodau'r Bwrdd Rheolwyr y Cwmni ac Aelodau'r Bwrdd	Yn flynyddol o fis Gorffennaf 2015 Bob tair blynedd o fis Gorffennaf 2015

MAES GWEITHGAREDD	GWEITHRED	GAN BWY	AMSERLEN
10.2 Cwynion ac Adborth	Rhoi cyfle i staff a'r cyhoedd gyflwyno adborth ar y Cynllun ar unrhyw adeg	Rheolwyr y Cwmni	Parhaus
11. Hysbysebu'r Cynllun	Dosbarthu'r cynllun ymhlith staff ac aelodau	Adran Farchnata a Rheolwyr y Cwmni	Awst 2015
	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan y cwmni	Adran Farchnata	Awst 2015
	Cynnal gweithdai a chyflwyniadau i randdeiliad yn ôl y galw	Adran Farchnata a Rheolwyr y Cwmni	Yn ôl y galw